**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Newid Hinsawdd a Thlodi Tanwydd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024 Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**

**11 Mawrth 2024**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011").

1.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r meini prawf cymhwystra yn Rheoliadau 2011 ar gyfer cymorth grant sydd ar gael i aelwydydd incwm isel sy'n byw yn y cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni yng Nghymru (gradd EPC o E neu lai) drwy:

1.2.1 ehangu cymhwystra i aelwydydd incwm is nad ydynt yn derbyn budd-daliadau sy'n destun prawf modd,

1.2.2 gan gynnwys lwfans ceisio gwaith i'r rhestr o fudd-daliadau cymwys sy'n destun prawf modd,

1.2.3 ymestyn cymhwystra  i anheddau sydd â dosbarthiad Tystysgrif Perfformiad Ynni o D neu lai lle mae'r ceisydd naill ai ar fudd-daliadau sy'n destun prawf modd neu o aelwyd incwm is a bod gan yr ymgeisydd gyflwr anadlol cronig, cyflwr cylchrediad y gwaed cronig neu gyflwr iechyd meddwl cronig, a

1.2.4 dileu'r cyfyngiad ar ailadrodd ceisiadau gan agor y posibilrwydd o roi grantiau pellach i anheddau cymwys sydd wedi elwa o'r blaen ar gael grantiau o dan Reoliadau 2011.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol greu grantiau tuag at gost gwaith neu gost cyngor i wella inswleiddio thermol neu fel arall i leihau neu atal gwastraff ynni mewn anheddau yn unol â rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu drefnu i greu grantiau o'r fath.

3.2 Roedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 yn darparu bod swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 yn arferadwy o ran Cymru yn gydredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn rhydd rhag unrhyw ofyniad am gydsyniad y Trysorlys. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae paragraff 1 o Atodlen 3A i Ddeddf

Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn gydredol ac yn rhydd rhag unrhyw ofyniad am gydsyniad y Trysorlys.

3.3 Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Mae trechu tlodi, gan gynnwys tlodi tanwydd, yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Gan ddefnyddio Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 fel sylfaen, amcangyfrifwyd bod 196,000 o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd ym mis Hydref 2021. Roedd 38,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd eithriadol. Roedd 153,000 o aelwydydd eraill mewn perygl o dlodi tanwydd.

4.2 Yn dilyn yr ymchwydd ym mhris ynni, nododd Llywodraeth Cymru y gallai hyd at 45% (614,000) o'r holl aelwydydd fod mewn tlodi tanwydd yn dilyn y cynnydd yn y cap prisiau ym mis Ebrill 2022 gan ddefnyddio mesur tlodi tanwydd Cymru. Gallai 15% arall (201,000) o'r holl aelwydydd fod mewn perygl o dlodi tanwydd.

4.3 Er bod costau ynni wedi gostwng yn sylweddol ers hynny, maent yn parhau i fod bron i ddwbl y lefel cyn y cynnydd byd-eang mewn prisiau ynni.

4.4 Er bod achosion sylfaenol tlodi tanwydd yn gymhleth, ffactor sy'n cyfrannu ato yw'r gyfran o gartrefi yng Nghymru nad ydynt yn effeithlon o ran ynni. Trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi incwm isel, gall y preswylwyr arbed costau ynni neu gadw eu cartrefi ar dymheredd cyfforddus am yr un gost.

4.5 Pwrpas y Rheoliadau hyn yw diwygio Rheoliadau 2011 i ehangu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer grantiau effeithlonrwydd ynni a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer aelwydydd incwm isel mewn anheddau aneffeithlon o ran ynni, a chywiro mân wall drafftio.

4.6 Mae Rheoliadau 2011 yn darparu bod ceisiadau am grantiau ar gyfer gwaith ond ar gael i ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau sy'n destun prawf modd mewn anheddau sydd â sgôr asedau o 54 o lai (gradd Tystysgrif Perfformiad Ynni o E neu lai). Er hynny, mae enghreifftiau o aelwydydd yng Nghymru ar incwm is ond nad ydynt yn derbyn budd-daliadau sy'n destun prawf modd ac sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Trwy ehangu'r meini prawf cymhwystra i gynnwys ymgeiswyr o aelwyd incwm is, mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod grantiau ar gael i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

4.7 Y trothwy ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr ag incwm incwm is yw incwm net cartref sy'n llai na 60% o incwm cartref net cyfwerthol canolrifol. Mae'r

trothwy hwn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ledled y Deyrnas Unedig ac yn deillio o'r ystadegau Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, sy'n cael eu cynhyrchu yn flynyddol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn seiliedig ar arolwg o 20,000 o aelwydydd ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r data'n cael ei gydbwyso er mwyn caniatáu cymharu unigolion o wahanol oedrannau ac o wahanol aelwydydd. Mae manylion pellach ynghylch y fethodoleg yma: Sut mae incwm isel yn cael ei fesur mewn ystadegau aelwydydd islaw/'r incwm cyfartalog - GOV.UK (www.gov.uk)

4.8 Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r fethodoleg i gadarnhau trothwyon ar gyfer gwahanol fathau o gartrefi ac yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar dudalen we ein cynllun. Bydd rhif rhadffôn i bobl ei ffonio hefyd, gyda chynghorwyr ynni sydd wedi'u hyfforddi a all arwain pobl drwy'r broses o benderfynu ar y trothwy ar gyfer eu haelwyd benodol.

4.9 Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ychwanegu lwfans ceisio gwaith seiliedig ar incwm at y rhestr o fudd-daliadau cymwys sy'n destun prawf modd. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu symud pawb sy'n derbyn lwfans ceisio gwaith sy'n seiliedig ar incwm i Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, gan nad yw'r broses hon wedi dod i ben, ychwanegwyd lwfans ceisio gwaith at y rhestr o fudd-daliadau cymwys i sicrhau cydraddoldeb wrth drin y rhai sydd wedi symud eisoes a'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny.

4.10 Yn y cyfnod rhwng Medi 2017 ac Ebrill 2021, darparodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot i ymestyn grantiau ynni cartref i'r rhai ar incwm isel gyda chyflyrau iechyd penodol sy'n byw mewn cartrefi â Thystysgrif Tystysgrif Perfformiad Ynni D neu is. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn cydnabod pobl â chyflyrau anadlol cronig, cyflyrau cylchrediad y gwaed cronig a chyflyrau iechyd meddwl cronig fel rhai sydd fwyaf agored i niwed i effeithiau negyddol byw mewn cartref oer ac yn fwyaf tebygol o elwa ar ymyriadau effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Yn ystod y cyfnod hwnnw, derbyniodd 2,146 o aelwydydd o bob rhan o Gymru â chyflyrau iechyd na fyddai fel arall wedi elwa ar gymorth yn derbyn mesurau effeithlonrwydd ynni cartref drwy'r llwybr iechyd. Cafodd cynigion i ymgorffori'r llwybr iechyd yn llawn i gynlluniau'r dyfodol eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes a ddaeth i ben ar 1 Ebrill 2022.

4.11 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2011 i ehangu cymhwystra ar gyfer grant i geiswyr sy'n byw mewn annedd sydd â sgôr asedau o 68 neu lai (Tystysgrif Perfformiad Ynni D neu lai) ac sydd naill ai'n derbyn budd-daliadau prawf modd neu gan aelwyd incwm is ac sy'n bodloni'r meini prawf iechyd hyn. Yn gyffredinol, nod polisi Llywodraeth Cymru yw cynyddu effeithlonrwydd ynni'r anheddau sy'n perfformio waethaf; o ganlyniad, cedwir y maen prawf anheddau lle nad oes gan unrhyw breswylydd un o'r cyflyrau iechyd ar raddfa ased o 54 neu lai (Tystysgrif Perfformiad YnnE neu waeth) yn unol â Rheoliadau 2011.

4.12 Gwnaeth yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Rhaglen Cartrefi Cynnes yn y dyfodol gydnabod y gallai rhai anheddau sydd wedi elwa yn y

gorffennol ar geisiadau grant llwyddiannus fod angen gwelliannau pellach i effeithlonrwydd ynni. Bydd y Rheoliadau hyn yn dileu'r cyfyngiad yn Rheoliadau 2011 ar geisiadau ailadroddus ar gyfer yr un annedd. Mae'r meini prawf sgorio asedau yn sicrhau bod grantiau'n parhau i ganolbwyntio ar yr anheddau sy'n perfformio waethaf.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 22 Rhagfyr 2021 a 1 Ebrill 2022 ar amcanion polisi cynlluniau grant effeithlonrwydd ynni cartref. Cafwyd 67 ymateb. Hefyd, cynhaliwyd tri gweithdy rhanddeiliaid rhithwir ar 1 Chwefror 2022, 1 Mawrth 2022 a 3 Mawrth 2022. Daeth 103 o gynrychiolwyr i'r gweithdai sy'n gynrhychiolaeth o ystod eang o randdeiliaid.

5.2 Roedd yr ymgynghoriad yn ystyried cymhwystra yn ogystal â materion ehangach. Mae'r canlynol yn crynhoi'r materion sy'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn yn unig. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: Cynigion ar gyfer fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes | LLYW.CYMRU

5.3 O ran cymhwystra, roedd cefnogaeth gref i gynlluniau yn y dyfodol ganolbwyntio ar helpu pobl mewn tlodi tanwydd wrth gyfrannu at nodau datgarboneiddio.

5.4 Pan ofynnwyd cwestiwn agored ar unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth y dylid eu llenwi mewn cynlluniau yn y dyfodol, dywedodd 34% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad y dylai fod cymhwystra ehangach. Roedd yr egwyddor hon o gefnogi pob aelwyd mewn angen hefyd yn nodwedd o'r gweithdai. Roedd galwadau am feini prawf cymhwystra hyblyg, ond o ystyried yr angen i ganolbwyntio ar y rhai mwyaf anghenus, penderfynwyd diffinio'r garfan darged.

5.5 O ran trothwyon incwm neu gynilion, roedd ystod eang o awgrymiadau ar gyfer gwerthoedd penodol, argymhelliad ar gyfer cyfrifiannell fforddiadwyedd, ymatebydd a awgrymodd isafswm lefel o gynilion a ddargedwir a chydnabyddiaeth y byddai angen i unrhyw werth gadw golwg ar chwyddiant. Roedd yr ymateb yn cydnabod cymhlethdod posibl wrth bennu meini prawf cymhwysedd ond gosododd yr egwyddor y dylai unrhyw grantiau gyrraedd y rhai mwyaf anghenus a blaenoriaethu'r ymyriadau a fydd yn eu cefnogi.

5.6 Er bod ymatebwyr ar y cyfan eisiau rhoi cyfle i ymestyn cymorth i gynnwys aelwydydd eraill o'r sector perchen-feddianwyr a rhentu preifat, roedd hyn yn seiliedig ar y disgwyliad y byddai'n mynd i'r afael â materion tlodi tanwydd a fforddiadwyedd. Ymrwymodd ymateb y llywodraeth i ystyried trothwy incwm is yn hytrach na chanolbwyntio ar fudd-daliadau prawf

modd.  Mae hefyd yn nodi ein dull o raddio Tystysgrif Perfformiad Ynni ac ar gyfer llwybr gwahanol i'r rhai â chyflyrau iechyd penodedig.

5.7 Roedd cefnogaeth gref i ganiatáu nifer o geisiadau fesul cartref neu annedd dros amser.  Y rhesymeg a roddwyd oedd bod amgylchiadau'n newid ac efallai y byddai'n gwneud synnwyr mabwysiadu dull graddol o safbwynt anghyfleustra . Fodd bynnag, roedd rhybudd hefyd y dylid rhoi grantiau ar y sail y dylem geisio ei wneud yn iawn a'i wneud unwaith i sbarduno cost-effeithiolrwydd. Roedd ymateb y llywodraeth yn cydnabod ac yn cytuno â'r angen am nifer o geisiadau  fesul aelwyd, ond y dylid cael ffordd o'i reoli. Bydd yr egwyddor o ddilyn dull Asesu'r Tŷ Cyfan yn nodi cyfres gost-effeithiol o fesurau, gan gynnwys ystyried dull graddol fel y bo'n briodol.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6. Yr Opsiynau

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn:

- 6.2 ***Opsiwn 1 – cadw'r status quo*** Cadw'r Rheoliadau 2011 heb eu diwygio ymhellach.
- ***Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau***. Deddfu i ddiwygio meini prawf cymhwysedd sy'n ymwneud â chyflyrau iechyd, lwfans ceiswyr gwaith ac aelwydydd ar incwm isel ond nad ydynt yn derbyn budd-daliadau sy'n destun prawf modd. Caniatáu nifer o geisiadau ar gyfer yr un cartref.

**Costau a manteision**

**6.2 Opsiwn 1 – cadw'r status quo**

6.2 Ni fyddai Opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol ac ni fyddai costau gweinyddol yn gysylltiedig â gweithredu'r newidiadau.

6.3 Amcangyfrifir bod 280,000 o aelwydydd yng Nghymru yn cael budd-daliadau sy'n destun prawf modd ac maent eisoes yn gymwys i gael y grant o dan yr opsiwn hwn, yn amodol hefyd ar fodloni'r meini prawf sy'n ymwneud â sgôr asedau eu cartref. Mae'r data hwn yn cynrychioli cyfnod cyfeirio tuag at ddiwedd 2022.

6.4 Nid yw'n bosibl cynnwys pawb sy'n hawlio Lwfans Cymorth Cyflogaeth seiliedig ar incwm yn gywir, nac eithrio'r rhai sydd ar Lwfans Ceisio Gwaith cyfrannol. Hefyd, nid oedd yn bosibl dileu unrhyw achos o orgyffwrdd rhwng teuluoedd sy'n hawlio credydau treth a phobl sy'n hawlio unrhyw un o fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, felly efallai y bydd rhywfaint o ddyblygu niferoedd. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i effaith yr uchod fod yn fach iawn o ystyried maint y ffigurau cyffredinol.

6.5 Felly, mae'n debygol bod nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Cymorth Cyflogaeth ar sail incwm sydd dan anfantais oherwydd y status quo yn gymharol fach a bydd yn lleihau dros amser wrth i bobl symud i Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, i unrhyw un o'r unigolion hynny, mae'r effaith yn uchel. Er mwyn lliniaru cyn cyhoeddi'r Rheoliadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i'r unigolion hyn hawlio cymhwystra dros dro.

6.6 Byddai penderfyniad yn seiliedig ar yr opsiwn hwn i beidio â mabwysiadu'r llwybr iechyd ar gyfer cyflyrau iechyd penodol yn cael effaith negyddol ar hyd at 28% o'r boblogaeth. Sylwer, mae'r ffigur hwn yn cynrychioli amcangyfrif o nifer y bobl sydd â chyflwr anadlol cronig, cyflwr cylchrediad y gwaed cronig neu gyflwr iechyd meddwl cronig. Nid yw'n bosibl

croesgyfeirio at amodau tai ac, o ganlyniad, mae'n debygol o fod yn oramcangyfrif.

6.7 Byddai cadw cyfyngiad ar ail geisiadau yn atal cefnogaeth gan gyfran o'r 77,000 o aelwydydd a gefnogir drwy'r Rhaglen Cartrefi Cynnes hyd yma y gall eu cartrefi aros o dan Dystysgrif Perfformiad Ynni E ac, o ganlyniad, efallai y gallent elwa o fesurau pellach.

**Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau**

6.8 Nid oes cost ychwanegol yn ymwneud â'r opsiwn hwn gan y bydd y mewnbwn cyfreithiol a'r mewnbwn polisi yn defnyddio adnoddau presennol ac mae unrhyw hyfforddiant cynghorwyr, diweddaru deunyddiau cyhoeddusrwydd a deunyddiau cyfathrebu â'r cyhoedd a sefydliadau partner yn dod o dan y cyllidebau presennol.

*6.9* Dyrennir y gyllideb gyfalaf ar gyfer cynllun yn y dyfodol bob blwyddyn ac nid yw'n dibynnu ar y meini prawf a nodir yn y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae cynyddu cymhwystra yn arwain at fwy o risg na fydd y gyllideb cyfalaf yn ateb y galw.

*Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm;*

6.10 Mae nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Cymorth Cyflogaeth ar sail incwm sydd dan anfantais oherwydd y status quo yn gymharol fach a byddant yn lleihau dros amser wrth iddynt gael eu symud i'r system Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, i unrhyw un o'r unigolion hynny, mae'r effaith yn uchel gan eu bod wedi'u heithrio o'r cynllun ac na allant gael mynediad at fesurau effeithlonrwydd ynni am ddim. Er mwyn lliniaru cyn cyhoeddi'r Rheoliadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i'r unigolion hyn hawlio cymhwystra dros dro. Trwy wneud y Rheoliadau, mae eu cynnwys wedi'i osod ar sail gyfreithiol gadarn.

*Ehangu'r cymhwystra i aelwydydd incwm is nad ydynt yn derbyn budd-daliadau prawf modd*

6.11 Amcangyfrifir nad yw o leiaf 150,000 o aelwydydd yng Nghymru ar fudd-daliadau prawf modd ond maent yn is na'r trothwy tlodi incwm cymharol ar gyfer aelwydydd incwm is (60% o'r incwm canolrifol sy'n defnyddio'r Methodoleg Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog).

6.12 Nid oes unrhyw ddata ynghylch nifer yr aelwydydd hyn sy'n byw mewn cartrefi aneffeithlon o ran ynni. Fodd bynnag, mae cydberthynas hysbys rhwng incwm ac ansawdd tai. Felly, drwy ehangu'r cymhwystra, mae'r opsiwn hwn yn golygu bod y cynllun ar gael i hyd at 150,000 yn fwy o aelwydydd.

*Ar gymhwystra ar gyfer cyflyrau iechyd penodol a chartrefi Tystysgrif Perfformiad Ynni D*

6.13 Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn rhoi manylion data hunangofnodedig ar unigolion â chyflyrau iechyd. Amcangyfrifir bod 28% o'r boblogaeth yn byw gyda chyflwr anadlol cronig, cyflwr cylchrediad y gwaed cronig neu gyflwr iechyd meddwl cronig. Nid yw'n bosibl cadarnhau faint o'r unigolion hyn oedd yn byw mewn cartrefi aneffeithlon o ran ynni, mae cysylltiad cydnabyddedig rhwng tai o ansawdd isel a'r afiechydon hyn.

*Dileu'r cyfyngiadau ar ail geisiadau*

6.14 Yn ystod y Rhaglen Cartrefi Cynnes, mae dros 77,000 o aelwydydd incwm is wedi elwa o gael cymorth. Mae llawer o gartrefi wedi gwella yn eu heffeithlonrwydd ynni hyd at yr uchafswm a ganiateir o dan y cynllun. Fodd bynnag, mae cyfran yn aros mewn Tystysgrif Perfformiad Ynni E neu'n is a gall elwa o welliant pellach yn y blynyddoedd i ddod. Yn ymarferol, bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad asesiad o'r cartref i benderfynu a yw mesurau ychwanegol yn briodol.

**Yr Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio**

6.15 Opsiwn 2 sy'n cael ei ffafrio. Er iddo gyflwyno risg o or-danysgrifio i gynllun yn y dyfodol, mae llawer mwy o fanteision i ehangu cymhwystra i nifer fwy o bobl sydd angen cymorth. Yn ymarferol, bydd llawer iawn o ddiddordeb mewn cefnogaeth yn cael ei reoli drwy ysgogi cynlluniau ledled Prydain Fawr ochr yn ochr â chynllun Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae cynlluniau o'r math hwn hefyd wedi'u llunio i fod yn hyblyg i ddyraniadau cyllideb yn y dyfodol.

**Asesiad Effaith Integredig**

6.16 Mae Asesiad Effaith Integredig (IIA) wedi'i gynnal ar y cynllun newydd sy'n cael ei arwain gan alw, Cartrefi Cynnes, gan gynnwys effeithiau'r Rheoliadau hyn.

6.17 Mae crynodeb o'r gwelliannau a wnaed i'w gael yma: Rhaglen Cartrefi Cynnes Newydd: asesiad effaith integredig | LLYW.CYMRU ac mae'r asesiad o'r effaith ar hawliau plant yma: Rhaglen Cartrefi Cynnes Newydd: asesiad o'r effaith ar hawliau plant | LLYW.CYMRU

## 7. Adolygu ar ôl gweithredu

7.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith y Rheoliadau hyn yng nghyd-destun gwerthuso ehangach grantiau effeithlonrwydd ynni.